

Teitl y Swydd: Rheolwr Gweithgaredd Corfforol a Chynhwysiant

Uned/Ysgol: Chwaraeon Met Caerdydd

Gradd: 6 A/B

HERA: CMETS80

Prif bwrpas y rôl

Bydd y Rheolwr Gweithgaredd Corfforol a Chynhwysiant yn gweithio yn ein tîm Gweithgaredd Corfforol ac Iechyd a bydd yn gyfrifol am y rhaglen gweithgarwch corfforol sy'n seiliedig ar leoliad ledled y ddinas. Byddant yn gweithio gydag ystod eang o randdeiliaid a phartneriaid ar draws amrywiaeth o sectorau i gytuno ar ddulliau, meithrin perthnasoedd a chyd-ddylunio gweithgareddau i wneud y mwyaf o ymgysylltiad cymunedau mewn gweithgarwch corfforol. Byddwch yn brofiadol mewn ymgysylltu cymunedol gyda hanes profedig o alluogi newid ac arwain ymyriadau chwaraeon neu weithgarwch corfforol i ddylanwadu'n gadarnhaol ar y system i sicrhau newid ymddygiad. Byddwch yn gyfrifol am reoli'r tîm a'r gyllideb Gweithgaredd Corfforol a Chynhwysiant i sicrhau bod model cyflawni cydlynol ar waith.

Cyfrifoldebau a chyfraniadau allweddol

- Fel Arweinydd ym Met Caerdydd byddwch yn darparu cyfeiriad, yn galluogi gweithredu ac yn annog gwneud penderfyniadau mewn eraill. Byddwch yn defnyddio cryfderau ein pobl ac yn cefnogi gweithio hyblyg a lles eich tîm. Byddwch yn cydweithio'n rheolaidd un i un ac yn modelu ein gwerthoedd.
- Rheoli'r rhaglen Gweithgaredd Corfforol a Chynhwysiant sy'n seiliedig ar le, gan gynnwys rheoli a datblygu'r tîm Gweithgaredd Corfforol a Chynhwysiant, gan sicrhau eu bod yn darparu lefel uchel o brofiad cwsmeriaid, gan weithio i ganlyniadau a therfynau amser y cytunwyd arnynt.
- Ymgorffori rhaglenni gweithgarwch corfforol cynaliadwy mewn cymunedau a nodwyd ledled Caerdydd sy'n profi'r anghydraddoldebau mwyaf. Cynyddu ymgysylltiad trigolion Caerdydd mewn cyfleoedd gweithgarwch corfforol cynhwysol a chynaliadwy.
- Gan adeiladu ar ddull seiliedig ar le'r Strategaeth Symud Mwy, nodi ac adeiladu partneriaethau a rhwydweithiau perthnasol o fewn cymunedau lleol penodol i sicrhau dull cydweithredol o ymdrin â gweithgarwch corfforol a chwaraeon ar gyfer rhaglenni datblygu.
- Datblygu partneriaethau'n strategol a thyfu'r rhwydwaith o randdeiliaid i adeiladu rhaglen o weithgareddau sy'n cyfrannu at atal troseddu ac annifyrrwch / ymddygiad gwrthgymdeithasol gan bobl ifanc.

- Cydweithio â phartneriaid mewnol yn Chwaraeon Met Caerdydd ac YChGIC i hyrwyddo cyfleoedd i ymgysylltu ar draws holl raglenni Chwaraeon y Met wrth ddefnyddio lleoliadau myfyrwyr.
- Yn gyfrifol am gynllunio a rheoli ariannol yr holl gyllidebau incwm a gwariant cysylltiedig. Cynhyrchu adroddiadau rheolaidd ar gyfer Pennaeth Chwaraeon a Gweithgaredd Corfforol ar berfformiad yn erbyn targedau.
- Gosod a chytuno ar amcanion perfformiad blynyddol ar gyfer y tîm a sicrhau bod adolygiadau effeithiol yn cael eu cwblhau trwy ddull cefnogol ond heriol.
- Nodi a darparu hyfforddiant, mentora a chefnogaeth barhaus i aelodau'r tîm er mwyn sicrhau eu bod yn manteisio ar arfer gorau'r diwydiant.
- Cyflawni unrhyw ddyletswyddau eraill yn ôl yr angen yn unol â gradd y rôl y gall Pennaeth Gweithgaredd Corfforol ac Iechyd ofyn amdanynt.
- Gweithredu fel hyrwyddwr brand i'r brifysgol drwy fyw ein gwerthoedd a'n hymddygiadau, a sicrhau bod ein gwaith a'n dull yn gyson â'n gwerthoedd a'n harfer gorau.

Manyleb person

Cymwysterau hanfodol / Aelodaethau proffesiynol

- Y gallu i ddangos y cymwyseddau sydd eu hangen i ymgymryd â'r dyletswyddau sy'n gysylltiedig â'r lefel hon o swydd ar ôl caffael y wybodaeth broffesiynol a'r sgiliau rheoli angenrheidiol mewn rolau arbenigol tebyg neu nifer o rolau arbenigol gwahanol.
- Gradd Gyffredin/Anrhydedd neu gymhwyster cyfatebol gydag ystod eang o brofiad proffesiynol mewn rôl(au) arweinyddiaeth.

Profiad, gwybodaeth a sgiliau hanfodol

1. Profiad o reoli timau a datblygu'r gweithlu o fewn chwaraeon a/neu ddatblygu cymunedol
2. Gwybodaeth am wneud cais am geisiadau am gyllid grant neu gyfleoedd nawdd a'u monitro.
3. Profiad o arwain a chymell eraill yn llwyddiannus, datblygu pobl a meithrin ymgysylltiad.
4. Profiad o ymgysylltu â phobl ifanc i gyd-ddylunio gweithgareddau a rhaglenni i gynyddu ymgysylltiad.
5. Gwybodaeth am feddwl systemau a sut i nodi dulliau i greu newid cynaliadwy.
6. Profiad o gydweithio ag ystod amrywiol o bartneriaid ar draws sectorau i weithio tuag at amcanion tebyg.
7. Gwybodaeth am ystyriaethau iechyd a diogelwch wrth weithio mewn lleoliadau cymunedol.

Dymunol

8. Gwybodaeth am ystyriaethau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant wrth weithredu rhaglenni a rheoli pobl.
9. Profiad o weithio mewn sefydliad Addysg Uwch.

Gofynion sgiliau Cymraeg

Mae'r Gymraeg yn hanfodol i'n myfyrwyr a'n staff ac mae'n rhan allweddol o'n darpariaeth a'n gwasanaethau. Ar gyfer pob swydd ym Met Caerdydd, mae hyfedredd yn y Gymraeg naill ai'n hanfodol neu'n ddymunol. Gallwch ddod o hyd i wybodaeth am y lefelau drwy edrych ar ein llyfryn: [Lefelau sgiliau iaith Gymraeg](#). Os yw sgil wedi'i rhestru fel un hanfodol yn y tabl isod, gwnewch yn siŵr eich bod yn dangos hyn yn eich ffurflen gais ar-lein.

Lefel iaith a disgrifiwr cyffredinol	Gwrando	Darllen	Siarad	Ysgrifennu
A1 – Dechreuwr Yn gallu deall a defnyddio ymadroddion bob dydd cyfarwydd ac ymadroddion sylfaenol iawn yn y Gymraeg.	Dymunol	Dymunol	Dymunol	Dymunol
A2 - Defnyddiwr sylfaenol Yn gallu delio â gwybodaeth syml, uniongyrchol a chyfathrebu mewn Cymraeg sylfaenol.				
B1 - Defnyddiwr canolradd Yn gallu cyfathrebu, i lefel gyfyngedig, yn y Gymraeg am bethau sy'n gyfarwydd a/neu'n gysylltiedig â gwaith.				
B2 - Defnyddiwr canolradd uwch Yn gallu mynegi eich hun yn y Gymraeg ar amrywiaeth o bynciau a deall y rhan fwyaf o sgwrs gyda siaradwr brodorol.				
C1 - Defnyddiwr rhugl Yn gallu cyfathrebu'n rhugl yn y Gymraeg.				
C2 - Prif ddefnyddiwr Yn gallu cyfathrebu'n rhugl ar faterion cymhleth ac arbenigol yn y Gymraeg.				



Gofynion y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd

Mae'r swydd hon yn gofyn am wiriad DBS manylach.

Gwybodaeth ategol

Mae'r Brifysgol yn sefydliad deinamig ac mae'n bosib y bydd angen newidiadau o bryd i'w gilydd. Ni fwriedir i'r disgrifiad swydd na'r fanyleb person hwn fod yn gynhwysfawr.

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i'r safonau ymddygiad moesegol a phroffesiynol uchaf. Felly, disgwylir i bob gweithiwr roi sylw dyledus i effaith eu hymddygiad personol ar y Brifysgol, myfyrwyr, cydweithwyr, rhanddeiliaid busnes a'n cymuned. Rhaid i bob gweithiwr ddangos ei fod yn cydymffurfio â'n Cod Ymddygiad Proffesiynol. Yn ogystal, dylai pob gweithiwr roi sylw arbennig i'w cyfrifoldebau o dan bolisiau a gweithdrefnau Prifysgol Metropolitan Caerdydd.